

GRAY, THOMAS (1847 - 1924), peiriannydd mwynawl a hanesydd lleol

Enw: Thomas Gray

Dyddiad geni: 1847

Dyddiad marw: 1924

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: peiriannydd mwynawl a hanesydd lleol

Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Peirianeg, Adeiladu, Pensaerniaeth Forwrol ac Arolygu Tir; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Thomas James Hopkins

Ganwyd 22 Medi 1847 yn Usworth, swydd Durham, yn fab i William a Jane Gray. Yn 1848 symudodd y teulu i Dai-bach, Margam, Sir Forgannwg, lle y bu Thomas fyw drwy weddill ei fywyd. Ar ôl cyfnod yn cynorthwyo'i dad, a oedd yn gynrychiolydd mwynawl i'r Mri. Vivian a'u Meibion, bu'n beiriannydd cynghorol i'r un cwmni o ddiwydiannwyr ac yn arolygwyr pyllau. Ef hefyd oedd dyfeisydd llusern ddiogel 'Gray' i lowyr (patent rhif 10,503; 12 Mehefin 1900). Ymddiddorai hefyd mewn llywodraeth leol, ym Mudiad y Gwirfoddolwyr, ac, yn bennaf oll, mewn hanes ac archaeoleg leol. Ymhlith ei weithiau cyhoeddedig ceir *'Notes on the granges of Margam Abbey'* (a adargraffwyd o'r *Journal of the British Archaeological Association*, 1903); *'The hermitage of Theodoric and the site of Pendar'* (yn *Archæologia Cambrensis*, 1903); a *The Buried City of Kenfig* (Llundain, 1909). Bu farw 9 Gorffennaf 1924, a chladdwyd ef yng nghapel anwes Tai-bach.

Awdur

Thomas James Hopkins, (1919 - 1987)

Ffynonellau

South Wales News, 10 Gorffennaf 1924

Cardiff Manuscripts 4882,

arysgrifen ar gladdgell y teulu yn Nhai-bach

adroddiad cyfrifiad 1851 yn y P.R.O

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734452

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Hopkins, T. J., (1970). GRAY, THOMAS (1847 - 1924), peiriannydd mwynawl a hanesydd lleol. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-GRAY-THO-1847>

CC BY-NC-ND

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government